**CABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **11feg Mehefin 2024** |
| **Aelod Cabinet perthnasol:** | **Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Asedau 2024/25 – 2034/35** |

**1. Y Penderfyniad a geisir**

a) Gofynnir i'r Cabinet argymell i'r Cyngor y dylid mabwysiadu Cynllun Reoli Asedau 2024-2034 i gynnwys :

- Y symiau ariannol a argymhellir yn Atodiad 1 ar gyfer y cynlluniau risg uchel
- Y ddau swm yn Atodiad 2 ar gyfer y cynlluniau risg cymhedrol
- Dadymrwymo y symiau ariannol sydd yn y Cynllun Rheoli Asedau presennol fel nodir ym mharagraff 26 o'r adroddiad hwn.

b) Comisiynu'r Prif Weithredwr i gynnal adolygiad pellach ymhen blwyddyn i geisio datrysiad ar gyfer materion na ellir ymrwymo i'w hariannu ar hyn o bryd fel a nodir ym mharagraffau 29 i 32 o'r adroddiad hwn.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

2. Mae ein hasedau (sef ein hadeiladau, ffyrdd, cerbydau, technoleg Gwybodaeth ac offer), yn hanfodol ar gyfer gallu darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd.

3. Daw costau defnyddio ein asedau o ddydd i ddydd o dan wariant refeniw y Cyngor, tra mae costau i adnewyddu, uwchraddio, a darparu asedau o'r newydd yn wariant cyfalaf.

4. Ein Cynllun Rheoli Asedau yw ein cynllun hir dymor er mwyn cynllunio ymlaen i flaenoriaethu gwariant cyfalaf er mwyn gallu rheoli ein asedau hanfodol, ac osgoi risg o fethu darparu gwasanaethau.

5. Mabwysiadwyd ein Cynllun Rheoli Asedau presennol yn 2019, a'i adolygu yn 2021. Er fod pum mlynedd o'n Cynllun Rheoli Asedau presennol yn weddill, mae'n ymarfer da cael cynllun 10 mlynedd am ystod o resymau:

   a) Y mae gwariant cyfalaf angen amser i gynllunio ymlaen llaw

   b) Adrannau angen gwybod os fydd ganddynt gyfalaf i reoli risgiau

c) Cyfleon i ymgeisio am grantiau – angen gwybod os fydd arian cyfatebol gennym

d) Y sefyllfa cyfalaf yn newid yn gyson – chwyddiant wedi cael effaith sy'n golygu na allwn gyflawni cymaint, yn ogystal â llai o arian ar gael

e) Gofynion Adrannau yn newid dros amser – llawer wedi newid ers 2019.

6. Casgliad hyn oll yw ein bod angen Cynllun Rheoli Asedau cyfredol er mwyn ymateb i'r risgiau ac anghenion sydd yn fyw heddiw ac am y blynyddoedd nesaf.

***Adnoddau tebygol i ariannu'r Cynllun Rheoli Asedau***

7. Mae'r Cyngor yn derbyn grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol i'w ddefnyddio ar gyfer ein blaenoriaethau rheoli asedau

8. Pan fabwysiadwyd y Cynllun Rheoli Asedau yn 2019, adroddwyd bryd hynny ein bod yn derbyn £6.6M o adnodd cyfalaf bob blwyddyn, ac nid yw wedi cynyddu ers sefydlu'r Cynllun cyn hwnnw, nôl yn 2009. Rhwng 2018 a llynedd, bu i ni hefyd dderbyn symiau uwchlaw hynny, oddeutu £2M y flwyddyn ar gyfartaledd, ar ffurf grantiau i bwrpas penodol.

9. Fodd bynnag, mae'r negeseuon yr ydym yn eu cael gan y Llywodraeth yn nodi y bydd y grantiau ychwanegol yn dod i ben, ac y bydd ein grant cyfalaf craidd yn parhau ar yr un lefel am y blynyddoedd i ddod, sef oddeutu £6.6M y flwyddyn. Mewn gwirionedd, golyga hyn na fyddwn yn gallu cyflawni cymaint gyda'r adnodd craidd - o ystyried lefelau chwyddiant dros y 5 mlynedd diwethaf y mae gwerth £6.6M yn 2009 gyfwerth â £4.3M heddiw, sy'n leihad o 34%.

10. Wrth osod ein cynllun 10 mlynedd newydd, rhagdybiwn fod £47.7M o arian cyfalaf ar gael i ni ymestyn ein cynllun am 5 mlynedd ychwanegol. Down at y casgliad yma wedi ystyried ein swm grant cyfalaf blynyddol ynghyd â chyfalaf a chronfeydd sydd heb eu dyrannu yn y Cynllun Rheoli Asedau presennol.

11. Er mwyn gallu ymateb i gynlluniau newydd sy'n codi lle nad oes modd eu rhagweld wrth osod y cynllun hwn, byddwn yn parhau i wneud darpariaeth o £0.5M y flwyddyn er mwyn cyfarch y gofynion hynny.

12. Daw hyn â'r swm ychwanegol sydd ar gael i ni er mwyn ymestyn y Cynllun Rheoli Asedau hyd at 2034 i **£45.2M**.

13. Yn ein Cynllun Rheoli Asedau presennol, mae nifer o gynlluniau wedi cwblhau ac felly ni fyddent yn ffurfio rhan o'r Cynllun newydd. Mae cynlluniau eraill sydd ar y gweill, neu heb eu cwblhau yn llawn ac felly'n trosglwyddo i'r cynllun newydd, ynghyd â'r cyllid sydd eisoes wedi ei gymeradwyo ar gyfer eu hariannu, sef **£41.96M**.

14. O ychwanegu'r arian newydd a gyfeirir ato ym mharagraff 10 uchod (£47.7M) at yr arian oedd eisoes wedi ei glustnodi gennym yn y Cynllun Presennol (£41.96M), golyga hyn y bydd ein Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer 2024-2034 yn cynnwys

DRAFT

buddsoddiad o £89.7M yn ein asedau er mwyn gallu darparu gwasanaethau i drigolion Gwynedd.

***Trefn adnabod gofynion buddsoddi cyfalaf***

15. Er mwyn cychwyn ar y gwaith o sefydlu ein Cynllun 10 mlynedd newydd, gwahoddwyd geisiadau gan Adrannau i nodi eu anghenion cyfalaf dros y 10 mlynedd nesaf. Gofynnwyd i Benaethiaid a'u swyddogion ystyried eu gofynion cyfalaf er mwyn parhau i ddarparu gwasanaeth i drigolion, i reoli risgiau ac i ddatblygu cynlluniau megis blaenoriaethau Cynllun y Cyngor.

16. Derbyniwyd 70 o geisiadau gyda chyfanswm eu gwerth yn **£129.3M**. Roedd y ceisiadau hyn yn gyfuniad o gynlluniau newydd a pharhad o gynlluniau blynyddol. Fe aseswyd pob un o'r rhain gennyf gan osod pob cynllun yn y categorïau canlynol, sy'n nodi'r risg o beidio eu cyflawni.

| |
|---|
| **RISG UCHEL** – methu parhau i ddefnyddio'r ased oherwydd risgiau iechyd a diogelwch sylweddol, gofynion rheoleiddwyr neu dod i ddiwedd ei oes. Neu, colled incwm sylweddol i'r Cyngor os na allwn fuddsoddi. |
| **RISG CYMHEDROL** – Peth effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth neu'n gynllun datblygol, ac wedi ei gynnwys yng Nghynllun y Cyngor. |
| **RISG ISEL** – Cynllun datblygol yn unig a ddim wedi ei gynnwys yng Nghynllun y Cyngor. |

17. Canlyniad hyn oll oedd fod gwerth £79.1M o gynlluniau yng nghategori risg uchel, gwerth £44.8M yn y categori risg cymhedrol, a gwerth £5.4M yn y categori risg isel.

18. Cynhaliwyd sesiwn gyda'r Aelodau Etholedig ar 24 a 25 Ebrill 2024 er mwyn cyflwyno'r her i osod cynllun cytbwys, ac i gasglu eu barn ar ein hasesiad risg ar bob un o'r cynlluniau.

19. Bu i mi hefyd gyflwyno opsiynau y gallwn eu gweithredu er mwyn dod a'r glorian yn wastad, gan ofyn am adborth yr aelodau ar yr opsiynau hyn, sef;

- Manteisio ar bob cyfle i ddenu grant tuag at flaenoriaethau y Cynllun Rheoli Asedau
- Ystyried cynlluniau bychan llai na £500k fel rhan o'r broses bidiau blynyddol
- Edrych am gyfleon i leihau'r swm blynyddol i rai o'r cynlluniau parhaus
- Ariannu swm llai na'r swm llawn
- Cyfeirio rhai materion tai am ystyriaeth wrth adolygu ein Cynllun Gweithredu Tai
- Gofyn i'r Adran Addysg flaenoriaethu cynlluniau moderneiddio ysgolion

DRAFT

- Benthyca darbodus

20. Ar ddiwedd y sesiwn gyda'r aelodau, rhannwyd holiadur er mwyn casglu eu barn. Mae tabl isod yn crynhoi rhai o'r prif negeseuon a gafwyd gan Aelodau:

| Yr arweiniad a geisiwyd | Barn Aelodau |
|---|---|
| 1. Nodi'r gofynion buddsoddi ar draws y Cyngor a maint yr her i osod cynllun cytbwys | • Cydnabod fod y dewisiadau yn anodd<br>• Aelodau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn bresennol |
| 2. A ydych yn gyffyrddus ein bod wedi asesu risg y gofynion buddsoddi yn gywir? | • Symud rhai materion o oren i wyrdd e.e. Caeau chwarae, toiledau, unedau busnes<br>• Swyddfeydd Cibyn – oes modd lleihau'r gofyn am ofod swyddfa neu ail leoli'r staff i swyddfa arall yn y dref?<br>• Uchafu'r cynllun i sefydlu Cartrefi Bychan Plant o'r categori risg oren i goch<br>• Swyddfa Harbwrfeistr Aberdyfi – daeth i'r amlwg yn ystod y trafodaethau gyda Aelodau a'r pennaeth Adran y bydd rhaid buddsoddi er mwyn datrys sefyllfa sy'n golygu na ellir defnyddio'r adeilad presennol erbyn hyn. |
| 3. A ydych yn cefnogi'r math o atebion a gynigir (ar ddiwedd y cyflwyniad) i geisio gosod cynllun cytbwys? | • Defnyddio'r premiwm i ariannu materion tai – manddaliadau yn benodol – nifer o aelodau yn cefnogi hyn<br>• Benthyca – ambell sylw o blaid ac yn erbyn<br>• Oes modd trosglwyddo asedau i gymunedau e.e. Toiledau a chaeau chwarae<br>• Ysgolion – lleihau'r rhaglen (sawl sylw am ddemograffi plant) |

21. Gyda'n rhagolygon yn darogan mai **£45.2M** yn ychwanegol a fyddai ar gael i'n buddsoddiadau cyfalaf am y 10 mlynedd i ddod, ni fyddwn mewn sefyllfa i ariannu'r holl gynlluniau ac yn wir ymddengys ein bod oddeutu £34M yn brin i fedru cyflawni'r holl cynlluniau risg uchel hyd yn oed.

22. Gyda hyn mewn golwg, nid oes dewis ond cyfyngu ar yr hyn y gallwn ei gyflawni.

23. O ganlyniad, bu i ni asesu pob un o'r ceisiadau unwaith yn rhagor ac er mwyn gosod cynllun y gallwn ei ariannu rwyf wedi gorfod argymell cymeradwyo swm llai na'r hyn oedd yr Adrannau yn gofyn amdano. Ar gyfer y cynlluniau hynny, mae'r tabl isod yn nodi swm cais gwreiddiol yr adran a swm yr argymhellir ei gymeradwyo fel rhan o'r Cynllun Rheoli Asedau o ystyried y gyllideb cyfyngedig fydd ar gael i ni.

DRAFFT

| Adran | Cynllun | Bid yr Adran | Swm a argymhellir er mwyn gallu gosod cynllun hafal |
|---|---|---|---|
| Addysg | Diogelu safleoedd Ysgolion Uwchradd | £500,000 | £300,000 |
| Amgylchedd | Astudiaethau dichonoldeb y gwasanaeth trafnidiaeth | £375,000 | £300,000 |
| CG | Symud cofrestrai y Gwasanaeth Cofrestru i Bloc B | £75,000 | i ddod allan o'r swm blynyddol |
| Cyllid | Adnewyddu cyfarpar TG | £7,000,000 | £5,500,000 |
| Economi a chymuned | Adnewyddu offer Byw'n Iach | £1,000,000 | i ddod allan o'r swm blynyddol |
| PP/YGC | Gwella Swyddfeydd Cibyn | £700,000 | £0 |
| PP/YGC | Atal Dirywiad Strwythurau | £500,000 | £250,000 |
| PP/YGC | Atal Dirywiad Priffyrdd | £6,000,000 | £4,800,000 |
| PP/YGC | Ffensys diogelwch | £500,000 | £250,000 |
| PP/YGC | Llifogydd ar briffordd | £500,000 | £250,000 |
| PP/YGC | adnewyddu fflyd heb gronfa adnewyddu | £1,000,000 | £500,000 |
| Tai ac Eiddo | Grantiau i wneud addasiadau tai i'r anabl | £10,500,000 | £6,500,000 |
| Tai ac Eiddo | Gwaith Cynnal a Chadw Rhaglenedig | £20,000,000 | £0 |
| Tai ac Eiddo | Man ddaliadau - buddsoddiad brys i ddelio gyda risgiau iechyd a diogelwch | £616,000 | I'w ariannu yn y Cynllun gweithredu Tai (Premiwm) |

DRAFT

24. Er bod nifer o gynlluniau yn y categori risg oren y byddwn yn dymuno eu cyflawni gan eu bod yn flaenoriaeth i'r Cyngor, nid yw'r cyfalaf fydd ar gael i ni am alluogi hynny. Fodd bynnag, mae dau gynllun lle rwyf yn argymell y dylem geisio eu blaenoriaethu a hynny am y rhesymau canlynol:

- Swyddfa Harbwrfeistr Aberdyfi – mae'n ofyn statudol arnom fe Awdurdod yr Harbwr i ddarparu lleoliad gwaith addas ar gyfer yr harbwr feistr allu cyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r adeilad presennol wedi dod i ddiwedd ei oes ac nid y ei atgyweirio yn synhwyrol yn nhermau economaidd. Bydd rhaid i ni felly

wneud darpariaeth ar gyfer codi adeilad newydd (£500,000) ond cyn hynny mae angen sicrhau ein bod wedi gwyntyllu pob ateb arall posib e.e. rhannu adeilad gyda rhywun arall yn y cyffiniau.

- Hwb Iechyd Bangor - Bydd Aelodau yn ymwybodol fod achos busnes wedi ei lunio er mwyn cyflwyno cais grant sylweddol i wireddu cynllun arloesol rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ar safle yng nghanol Dinas Bangor. Bwriedir trawsnewid yr hen uned "Debenhams" yng nghanolfan Menai i fod yn Hwb Iechyd i'r ddinas ac yn sgil hynny cynyddu'r nifer ymwelwyr dyddiol i ganol y ddinas yn sylweddol. Mae'r achos busnes yn cynnwys cyfraniad o £500,000 gan y Cyngor tuag at y £25M fydd ei angen i gyflawni'r gwaith.

25. Wedi hyn, mae'r cyfanswm cynlluniau yn £49.5M sydd dal i fod £4.3M yn uwch na'r cyllid sydd ar gael ac o ganlyniad, bydd rhaid ailymweld â'r hyn sydd eisoes wedi ei gymeradwyo yn ein cynllun presennol.

26. Yn sgil hynny, argymhellir dadymrwymo fel y nodir yn y tabl isod:

| **Adran** | **Cynllun** | **Swm yn y CRhA presennol** | **Swm i'w ddadymrwymo** |
|---|---|---|---|
| Tai ac Eiddo | Tai Gofal Estynedig (y trydydd cynllun) | £1,500,000 | £1,500,000 |
| Amgylchedd | Astudiaethau dichonoldeb y gwasanaeth trafnidiaeth | £375,000 | £60,000 |
| Oedolion | Cartrefi Henoed | £790,000 | £500,000 |
| PP/YGC | Atal Dirywiad Priffyrdd | £4,000,000 | £600,000 |
| PP/YGC | Adnewyddu Goleuadau Traffig | £325,000 | £75,000 |
| PP/YGC | Ffensys diogelwch | £500,000 | £250,000 |
| PP/YGC | Llifogydd ar briffordd | £500,000 | £125,000 |
| PP/YGC | Uwchraddio pibellau dwr i stadau tai | £1,500,000 | £1,000,000 |
| Plant | Canolfan Maesgeirchen | £415,000 | £215,000 |
| | | | **£4,325,000** |

27. Mewn nifer o'r achosion uchod, rwy'n gorfod argymell cwtogi ein gwariant presennol a hynny am resymau ariannol yn unig h.y. er mwyn gallu lleihau ein gofynion gwario i gyd-fynd â'r gyllideb sydd ar gael. Yn yr achosion hynny rwy'n argymell symiau llai yn dilyn cymharu'r lefel risg yn y meysydd yma gyda'r lefel risg ynghlwm i rai o'r gofynion buddsoddi newydd.

DRAFT

28. Mae rhesymau ychwanegol yn fy arwain i argymell llai o fuddsoddiad ar ambell gynllun:

- Tai Gofal Estynedig - er fod datblygu mwy o Dai Gofal Estynedig am fod yn hanfodol wrth i'n poblogaeth heneiddio a'r niferoedd fydd angen gofal gynyddu, mae modd defnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol i ariannu hyn ac o ystyried ein diffyg cyfalaf bydd angen gofyn i'r Adran Tai ac Eiddo flaenoriaethu cyllido cynllun tai Gofal Estynedig pellach allan o'r Grant Tai Cymdeithasol y ystod y blynyddoedd nesa.
- Uwchraddio pibellau dwr i stadau tai – mae'r rhaglen waith bellach wedi delio gyda pibellau oedd yn y categori cyflwr gwaethaf ac mae'n costau cynnal a chadw blynyddol ar gyfer y pibellau sy'n weddill wedi gostwng yn sgil hynny. Nid oes cyfiawnhad i ni barhau i fuddsoddi cyfalaf yn y maes yma erbyn hyn.
  Canolfan Maesgeirchen – yn sgil trafodaethau gyda'r gymuned mae ateb amgen wedi ei gytuno ar gyfer y gofyn hwn.

29. Ar ddiwedd hyn oll, rydym yn parhau i wynebu dau her sylweddol nad oes modd i ni eu hateb ar hyn o bryd, sef nad oes gennym ddarpariaeth cyllidol ar gyfer cynnal a chadw rhaglenedig ar adeiladau, na'r wedd nesaf o brosiectau i foderneiddio ysgolion.

30. Yn hynny o beth, ac o ystyried yr effaith a difrifoldeb peidio a buddsoddi yn y ddau faes yma, argymhellaf y dylem gynnal adolygiad o'r Cynllun Rheoli Asedau ymhen blwyddyn yn y gobaith y bydd ein sefyllfa cyfalaf wedi gwella erbyn hynny, fod rhai cynlluniau yn rhatach wrth i ni fynd ati i'w prisio yn fwy cywir, neu y byddwn wedi darganfod ffordd o ariannu benthyciad cyfalaf allan o arbedion refeniw. Mae posibilrwydd hefyd na fydd ambell i gynllun yn parhau pe baem yn methu a llwyddo gyda cheisiadau grant am arian cyfatebol e.e. Hwb iechyd Penygroes, Hwb Iechyd Bangor a gwaith Addasrwydd yn Ysgol Brynrefail).

31. Pe digwydd hynny, argymhellaf y dylem flaenoriaethu unrhyw gyfalaf a gaiff ei ryddhau ar gyfer buddsoddi yn y ddau faes penodol yma sydd heb eu cyfarch ar hyn o bryd.

32. Yn y cyfamser, mae rhai cynlluniau yn y maes Addysg eisoes yn ran o'r Cynllun hwn (Tryfan, Hirael, Addasrwydd Brynrefail, Diogelwch Uwchradd) ac mae gennym beth arian a ddisodlwyd gan grant i'w fuddsoddi mewn cynnal a chadw rhaglenedig ar adeiladau.

***Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio***

33. Ar 23 Mai 2024, cefais y cyfle i gyflwyno'r Cynllun Rheoli Asedau arfaethedig i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn iddynt graffu ar y broses o sefydlu ein Cynllun Rheoli Asedau.

34. Cynnwys sylwadau y PLLA yma

***Ystyriaethau pellach***

35. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Paratowyd y cynllun o fewn egwyddorion y Ddeddf.

36. Bu lleihau ardrawiad ar drigolion Gwynedd a chenedlaethau'r dyfodol yn greiddiol i'r broses o sefydlu ein Cynllun Rheoli Asedau. Mae'r broses ynddo'i hun wedi blaenoriaethu'r ceisiadau a fyddai'n peri'r risgiau mwyaf i drigolion Gwynedd pe na fyddwn yn eu cyflawni, a'r rhai sy'n cyfrannu at ein amcanion llesiant / meysydd blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor. Yn ogystal, mae nifer o'r cynlluniau yn ymwneud a gwaith atalion ac yn edrych i'r hirdymor gan geisio sicrhau gwasanaethau cynaliadwy i'r dyfodol.

37. Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Y Ddeddf") (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig) wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cyngor dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig ynghyd a dal sylw at ardrawiadau economaidd gymdeithasol.

38. Nid yw'r adroddiad yma yn argymell unrhyw weithred sy'n mynd i amharu ar y Gwasanaeth a ddarperir i unrhyw un sydd â nodweddion gwarchodedig. Yn wir, bwriad y Cynllun Asedau yw sicrhau ein bod yn cyfeirio unrhyw Adnoddau cyfalaf sydd ar gael i'r mannau hynny sydd am gael ardrawiad positif ar ein holl drigolion gan gynnwys y rhai hynny sydd â nodweddion gwarchodedig.

39. Mae rhai cynlluniau, yn enwedig yn y maes gofal cymdeithasol a tai, yn anelu i wella ansawdd y gwasanaeth i rai gyda nodweddion gwarchodedig, ac mae'r cynlluniau hynny yn amlwg o'r rhestr.

**Camau nesaf**

40. Bydd argymhelliad y Cabinet yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 4 Gorffennaf 2024 er mwyn mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau 2024-2034.

**Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

*Mae cyfrifoldeb sefydlu Cynllun Asedau i'w argymell i'r Cyngor gan y Cabinet. Mae hynny yn golygu fod y Cabinet yn cloriannu a dod i safbwynt ar ystod o faterion gan gynnwys gofynion statudol a chyfreithiol, blaenoriaethau a chyfarch anghenion o fewn yr adnoddau a ragwelir. Darperir y wybodaeth ar gyfer dod i'r casgliad yma yn yr adroddiad a'r Cynllun Asedau Drafft.*

**ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

DRAFFT

*Mae'r Cynllun Rheoli Asedau yn ddatganiad pwysig a phellgyrhaeddol sy'n gosod cyfeiriad i strategaeth gyfalaf y Cyngor am y 10 mlynedd nesaf, ac rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir. Mae swyddogion yr Adran Gyllid wedi cydweithio'n agor gydag awdur yr adroddiad ac rwyf yn cadarnhau cywirdeb yr wybodaeth ariannol sydd wedi ei gynnwys, a chredaf fod y rhagamcanion cyllidebol yn rhesymol o theg*.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1:** Rhestr cynlluniau risg uchel yr argymhellir eu hariannu

**Atodiad 2:** Rhestr cynlluniau risg cymhedrol yr argymhellir eu hariannu

**Atodiad 3:** Rhestr cynlluniau sy'n parhau o'r cynllun presennol

DRAFFT

**Atodiad 1 – Rhestr cynlluniau risg uchel yr argymhellir eu hariannu**

| Adran | Cynllun | Disgrifiad | Bid yr Adran | Swm a argymhellir er mwyn gallu gosod cynllun hafal |
|---|---|---|---|---|
| **Addysg** | **Treferthyr** | Ysgol newydd i ddisodli adeilad mewn cyflwr difrifol na ellir ei gynnal yn y dyfodol - cyllido'r cynnydd mewn costau sydd eisoes wedi cael cefnogaeth y Cabinet | **£1,100,000** | **£1,100,000** |
| **Addysg** | **Ysgol Hirael, Bangor** | Cwblhau buddsoddiad yn y gyfundrefn cynradd ym Mangor (35%) sydd eisoes wedi cael cefnogaeth y Cabinet | **£1,975,000** | **£1,975,000** |
| **Addysg** | **Ysgol Tryfan, Bangor** | Cryfhau darpariaeth Addysg Gymraeg Uwchradd ym Mangor (35%) sydd eisoes wedi cael cefnogaeth y Cabinet | **£5,200,000** | **£5,200,000** |
| **Addysg** | **Diogelu safleoedd Ysgolion Uwchradd y Sir** | Nifer o geisiadau gan ysgolion uwchradd am gymorth ariannol i ddatrys materion diogelu | **£500,000** | **£300,000** |
| **Addysg** | **Ysgol Brynrefail / Cyflwr ac addasrwydd** | Ariannu gwaith addasrwydd Ysgol Brynrefail a fwriadwyd ei gynnwys yn wreiddiol yn y Cynllun O1 16 – eisoes wedi cael cefnogaeth y Cabinet | **£940,000** | **£940,000** |
| **Amgylchedd** | **Trawsnewid canolfannau dosbarthu a didoli Caergylchu a Ffridd Rasus - cyfraniad tuag at grant 80% gan Ll C.** | Mae angen buddsoddiad sylweddol yn Caergylchu a Ffridd Rasus yn y dyfodol agos er mwyn parhau efo'r rhaglen trawsnewid. Cyfraniad tuag at grant 80% gan Lywodraeth Cymru | **£1,000,000** | **£1,000,000** |
| **Amgylchedd** | **Astudiaethau dichonoldeb y gwasanaeth trafnidiaeth** | Cynnal astudiaethau dichonoldeb a chwblhau gwaith rhagbaratoi i'n galluogi i ymgeisio am arian grant sylweddol tuag at gynlluniau hanfodol i ddelio gyda materion diogelwch priffyrdd neu waith atgyweirio sylweddol | **£375,000** | **£300,000** |
| **Cyllid** | **Adnewyddu cyfarpar TG** | Mae defnydd technoleg gwybodaeth yn allweddol bellach i holl wasanaethau'r Cyngor ac mae angen adnodd i adnewyddu'r offer hwnnw wrth iddo | **£7,000,000** | **£5,500,000** |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ddod i ddiwedd ei oes. Y swm yma yw'r swm sydd ei angen i wneud hynny dros gyfnod 10 mlynedd y Cynllun. | | |
| **Economi a chymuned** | **Adnewyddu Harbwr a Pontoons Pwllheli - Carthu** | Carthu'r harbwr | **£1,400,000** | **£1,400,000** |
| **Economi a chymuned** | **Adnewyddu Harbwr a Pontoons Pwllheli - Adnewyddu pontŵns** | Adnewyddu'r pontŵns sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes. | **£4,000,000** | **£4,000,000** |
| **Economi a chymuned** | **Doc Fictoria** | Adnewyddu giât forol ac adnewyddu pontŵns. Mae angen adnewyddu'r giât ar frys - wedi torri am gyfnod llynedd a risg i golli incwm. Pontwns hefyd wedi cyrraedd diwedd eu hoes. | **£1,700,000** | **£1,700,000** |
| **Oedolion** | **Darpariaeth ar gyfer cyd-ariannu prosiectau gofal** | Darpariaeth ar gyfer arian cyfatebol Cyngor Gwynedd i ymgeisio am grantiau i ariannu datblygiadau yn y maes gofal. | **£5,000,000** | **£5,000,000** |
| **Plant** | **Cartrefi Grŵp Bychain** | Sefydlu Cartrefi Grŵp Bychain i blant. Rydym eisoes wedi derbyn grant ar gyfer y 3 cartref cyntaf ac mae'r bid yma ar gyfer cartref 4 a 5. | **£1,400,000** | **£1,400,000** |
| **PP/YGC** | **Atal Llifogydd - Prom y Gogledd Abermaw** | Cyfraniad Gwynedd (15%) i ddenu grant ar gyfer y cynllun £23m. | **£3,450,000** | **£3,450,000** |
| **PP/YGC** | **Atal Llifogydd - Gerddi'r traffont, Abermaw** | Cyfraniad Gwynedd (15%) i ddenu grant ar gyfer y cynllun £4m. | **£115,000** | **£115,000** |
| **PP/YGC** | **Cynllun Atal Llifogydd Dalgylch Ogwen** | Cyfraniad Gwynedd (15%) i ddenu grant ar gyfer y cynllun £2m. | **£300,000** | **£300,000** |
| **PP/YGC** | **Cynllun Atal Llifogydd Dalgylch Gwyrfai** | Cyfraniad Gwynedd (15%) i ddenu grant ar gyfer y cynllun £2m. | **£300,000** | **£300,000** |
| **PP/YGC** | **Atal Dirywiad Strwythurau** | Atal dirywiad pontydd - £100k y flwyddyn | **£500,000** | **£250,000** |
| **PP/YGC** | **Atal Dirywiad Priffyrdd** | Parhau gyda'r swm o £1m y flwyddyn i atal dirywiad Priffyrdd. | **£6,000,000** | **£4,800,000** |
| **PP/YGC** | **Ffensys diogelwch** | Gwaith i uwchraddio ffensys diogelwch i gydymffurfio a rheolau statudol (VRS). | **£500,000** | **£250,000** |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **PP/YGC** | **Llifogydd ar briffordd** | Ymateb i ddifrod llifogydd ar y briffordd | **£500,000** | **£250,000** |
| **PP/YGC** | **Adnewyddu Amlosgydd** | Amlosgfa BAngor – bu i'r prif amlosgydd gael ei uwchraddio yn 2023. Amlosgydd wrth gefn yn debygol o fod angen ei uwchraddio o fewn y 10 mlynedd nesaf. | **£550,000** | **£550,000** |
| **PP/YGC** | **Adnewyddu Canllaw Waliau Friog** | Adnewyddu canllaw uwchben waliau cynnal ar yr A493. | **£600,000** | **£600,000** |
| **PP/YGC** | **adnewyddu fflyd heb gronfa adnewyddu** | Mae nifer o wasanaethau'r Cyngor yn defnyddio cerbydau er mwyn cyflawni gwasanaethau, a thra bod rhai adrannau yn adnewyddu'r cerbydau hynny drwy sefydlu Cronfa Adnewyddu ar ei cyfer, mae eraill yn ddibynnol ar y rhaglen gyfalaf i'w hadnewyddu. | **£1,000,000** | **£500,000** |
| **Tai ac Eiddo** | **Gwaredu asbestos** | Parhau gyda'r cynllun presennol i waredu asbestos o'n hadeiladau. | **£850,000** | **£850,000** |
| **Tai ac Eiddo** | **Grantiau i wneud addasiadau tai i'r anabl** | Parhau gyda'r cynllun i wneud addasiadau i eiddo i alluogi pobl anabl i barhau i fyw yn eu cartrefi nei hwyluso i adael ysbyty. Cais am £400k y flwyddyn yn ychwanegol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a £1.7m y flwyddyn am 5 mlynedd ar ôl hynny | **£10,500,000** | **£6,500,000** |
| | **CYFANSWM** | | | **£48,530,000** |

DRAFT

**Atodiad 2 – Rhestr cynlluniau risg cymhedrol yr argymhellir eu hariannu**

| Adran | Cynllun | Disgrifiad | Bid yr Adran | Swm a argymhellir er mwyn gallu gosod cynllun hafal |
|---|---|---|---|---|
| Economi a chymuned | **Swyddfa Aberdyfi** | Adeilad yr Harbwrfeistr wedi dod i ddiwedd ei oes | £700,000 | **£500,000** |
| Economi a chymuned | **Hwb Iechyd Bangor** | Cyfraniad Cyngor Gwynedd i'r Hwb. Cyfle i adleoli gwasanaethau iechyd i ganol y Ddinas. | £500,000 | **£500,000** |
| | **CYFANSWM** | | | **£1,000,000** |

DRAFT

**Atodiad 3**

Cynlluniau sy’n parhau o’r cynllun asedau presennol o fewn yr amlen ariannol gwreiddiol

| Adran | Teitl | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Addysg** | **Uwchraddio cyflwr ac addasrwydd ysgolion** | Uwchraddio cyflwr ac addasrwydd o nifer o ysgolion na fyddent yn debygol o fod yn gymwys ar ben eu hunain ar gyfer cynllun i'w gwneud yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain |
| **Economi a chymuned** | **Materion Iechyd a Diogelwch mewn canolfannau hamdden** | Cyflawni gweithfeydd i wahanu traffig a phobl mewn dau canolfan hamdden |
| **Economi a chymuned** | **Parc Padarn, Llanberis** | Buddsoddi mewn llwybrau a chyflawni gwaith i warchod diogelwch ymwelwyr i'r Parc a defnyddwyr llwybrau cyhoeddus |
| **Oedolion** | **Hwb Iechyd a Gofal, Penygroes** | Cynllun darparu 'hwb' gofal iechyd ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd a Grŵp Cynefin |
| **Oedolion** | **Canolfan Dolfeurig** | Adeilad newydd ar gyfer gwella darpariaeth gofal dydd i oedolion gydag anableddau dysgu i ddisodli adeilad anaddas sydd yn aneffeithlon ei gynnal yn y dyfodol |
| **Oedolion** | **Cartrefi Henoed** | Addasiadau i gartrefi henoed - nifer wedi cwblhau |
| **Plant** | **Canolfan Maesgeirchen, Tŷ Cegin** | Datblygu darpariaeth i gefnogi teuluoedd yn ardal Maesgerichen, Bangor |
| **PP/YGC** | **Atal Llifogydd** | Gwaith atal llifogydd yn ardaloedd Hirael, Pwllheli, Felinheli |
| **PP/YGC** | **Adnewyddu Goleuadau Traffig** | Adnewyddu colofnau a goleuadau traffig ar ddiwedd eu hoes |
| **PP/YGC** | **Tir Claddu** | Sicrhau tir claddu digonol |

DRAFT